ATODLEN 4

Apelau i Weinidogion Cymru

# RHAN 1

## Materion rhagarweiniol

**Gwrandawiadau llafar**

**2.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i wrandawiad llafar gael ei gynnal os ydynt yn ystyried bod angen clywed sylwadau llafar cyn penderfynu apêl a gyflwynwyd iddynt.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu cynnal gwrandawiad llafar, rhaid iddynt—

(a) penodi un neu ragor o bersonau i wrando'r apêl ac i adrodd wrthynt ar yr apêl,

(b) rhoi dim llai na 14 o ddiwrnodau o rybudd o amser a lleoliad y gwrandawiad i'r apelydd ac i unrhyw berson yr anfonwyd copi o'r hysbysiad o apêl ato o dan baragraff 4 neu 7,

(c) rhoi gwybod i'r apelydd i bwy y rhoddwyd hysbysiad o'r gwrandawiad, a

(d) rhoi gwybod i'r rheini a hysbysir y cânt gyflwyno sylwadau llafar yn y gwrandawiad, ynglŷn â'r apêl.

(3) Caniateir i unrhyw berson a grybwyllir yn is-baragraff (2), sy'n dymuno cyflwyno sylwadau llafar yn y gwrandawiad, gael ei gynorthwyo i gyflwyno ei sylwadau gan berson arall a chael ei gynrychioli yn y gwrandawiad gan y person arall hwnnw, gan gynnwys pan na fo'r person a hysbysir o dan is-baragraff (2) yn gallu bod yn bresennol ei hunan yn y gwrandawiad.

(4) Caiff y person neu'r personau a benodir gan Weinidogion Cymru i wrando'r apêl benderfynu'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn y gwrandawiad.

(5) Nid yw Gweinidogion Cymru wedi eu rhwymo gan unrhyw argymhellion sy'n codi o wrandawiad llafar.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 4 para. 2 mewn grym ar 1.10.2020, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, Paragraff 2.